Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Trelai**
**Plymouthwood Road**
**Cardiff**
**CF5 4DD**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2013**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/03/2013**

## Cyd-destun

Mae gan Cylch Meithrin Trelai ddefnydd llwyr o'r adeilad a ddefnyddiwyd yn flaenorol gan y clwb bowlio lawnt lleol. Mae'r adeilad a'r cyffiniau wedi cael eu haddasu ac ar hyn o bryd mae`n darparu darpariaeth o ansawdd da ar gyfer y plant, gan gynnwys ardal chwarae fawr y tu allan.

Mae'r Cylch yn gwasanaethu ardal ar gyrion gorllewinol Dinas Caerdydd, ardal sy`n cael ei chydnabod yn ddifreintiedig yn gymdeithasol ac yn economaidd. Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw`r Cylch sydd wedi`i gofrestru gan Fudiad Meithrin ac yn derbyn eu dyfarniad o "Cylch Ragorol". Mae'r Cylch yn cael ei redeg gan bwyllgor rheoli ac mae'n aelod o Bartneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Dinas Caerdydd.

Mae'r Cylch ar agor bob bore (9 y.b. - 11.30 y.b.) ac yn y prynhawn (12 - 2.30 y.p.) am bum diwrnod yr wythnos ac am 39 wythnos o`r flwyddyn. Mae`r plant yn mynychu yn ddwy oed ac yn gadael ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn y mis Medi sy`n dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i ddarparu ar gyfer uchafswm o 34 o blant. Ar hyn o bryd mae 11 o blant tair oed ar y gofrestr gyda 7 ohonynt yn cael eu hariannu. Mae rhai plant yn talu ffioedd ac eraill yn cael eu hariannu gan raglenni Dechrau'n Deg a Cychwyn Cadarn.

Mae`r plant yn dod o'r ardal leol, ac yn bennaf yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith. Mae canran fach o blant yn dod o gefndiroedd lleiafrifol ethnig. Mae'r lleoliad yn croesawu plant beth bynnag yw eu cefndir neu eu gallu.

Mae`r plant a`r rhieni`n dod i mewn trwy gyntedd lle mae gwybodaeth ddefnyddiol i rieni a gofalwyr yn cael ei harddangos. Mae ystafell gotiau ac enwau ar gyfer eu cotiau ac mae'r plant yn cael eu cyfarch gan aelodau o'r staff ac yn symud ymlaen i'r brif ystafell ddysgu. Mae'r brif ystafell addysgu wedi`i gwahaniaethu'n addas i ardaloedd o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ystafell yn gynnes a'r amgylchedd yn cael ei wella gan ddeunyddiau arddangos a gwaith creadigol y plant. Wrth ymyl yr ystafell hon mae cegin sydd wedi`i dodrefnu'n dda. Mae yna hefyd ystafell fach a ddefnyddir ar gyfer gwaith creadigol a thoiledau i blant. Mae ystafell arall ar gael ar gyfer cyfarfodydd preifat pan fydd angen.

Mae`r tu allan wedi cael ei ddatblygu ac yn darparu man da ar gyfer gweithgareddau chwarae i blant. Mae`r offer chwarae sefydlog mewn cyflwr da gydag arwyneb chwarae meddal. Mae lle digonol ar gyfer y plant i ddefnyddio teganau symudol ac ardal o laswellt. Mae ardal storio diogel ar gael hefyd gan nad oes modd gadael offer heb oruchwyliaeth dros nos.

Mae`r lleoliad wedi`i staffio`n hael gydag ymarferwyr profiadol sydd â chymwysterau da. Mae`r staff sy`n dysgu Cymraeg yn gwneud pob ymdrech i wella eu sgiliau iaith.

Mae`r plant yn trosglwyddo o`r Cylch i un o ysgolion Cymraeg y ddinas, fel arfer i Ysgol Coed y Gof. Mae cysylltiadau rhagorol yn bodoli gyda'r ysgol hon ac mae hyn yn hwyluso trosglwyddiad y plant.

Cafodd y lleoliad ei arolygu yn flaenorol gan Estyn ym mis Tachwedd 2006. Mae'r argymhellion wedi cael sylw. Arolygwyd y lleoliad gan AGGCC yn 2012 ac nid oedd unrhyw argymhellion.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Nodweddion rhagorol

- Y gofal, cymorth ac arweiniad sy`n cael eu darparu ar gyfer y plant.

Nodweddion da

- Safonau cyflawniad y plant a`u cynnydd wrth ddysgu.
- Lles plant.
- Profiadau dysgu sy`n cael eu darparu ar gyfer y plant.
- Ansawdd yr addysgu.
- Yr amgylchedd dysgu.
- Ansawdd yr arweinyddiaeth a`r rheolaeth.
- Gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant.
- Perthynas gyda rhieni a'r ysgol gynradd sy'n derbyn y plant.

### Rhagolygon gwella

***Prif arfarniad***

Nodweddion da

- Ansawdd y gweithdrefnau hunanarfarnu a`r cynllunio ar gyfer gwelliant.
- Hanes o wella`r ddarpariaeth.
- Agwedd hunanarfarnol y staff a`u bodlonrwydd i weithredu syniadau newydd.
- Yr arweinyddiaeth a`r rheolaeth gadarnhaol a`r llwyddiant o ennill cefnogaeth ariannol.
- Cefnogaeth gan yr  holl bartneriaethau.

## Argymhellion

Mae angen i`r lleoliad:

A1  Gynnal a, lle bo modd, gwella`r ddarpariaeth addysgol dda.

A2  Mireinio gweithdrefnau asesu er mwyn nodi datblygiad medrau plant unigol ac i ddefnyddio`r arsylwadau hyn i gynllunio gweithgareddau sy`n cyfateb yn dda i'w gallu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.  Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r holl blant yn gwneud cynnydd da ac weithiau da iawn o'u man cychwyn wrth ymuno â`r Cylch. Ar y cyfan, maent yn cyflawni safonau da. Mae'r holl blant yn dangos ymrwymiad da iawn i'w tasgau ac maent yn dangos agwedd dda iawn.

Mae`r plant yn gweithio hyd eithaf eu gallu ac yn anaml iawn nad ydynt yn ymwneud yn llawn â thasgau. Mae ganddynt yr hunan-hyder i wneud penderfyniadau yn hyderus ac i ddewis tasgau sydd o ddiddordeb iddynt – mae hyn yn deillio o'r gefnogaeth a ddarperir ar eu cyfer.

Er bod bron yr holl blant yn dod o gartrefi lle siaredir Saesneg, maent yn dod yn fwyfwy cymwys a hyderus yn yr iaith Gymraeg, gymaint felly fel bod rhan fwyaf o blant yn parhau a`u haddysg mewn ysgolion gynradd Gymraeg. Maent yn deall mwy o eiriau nag y gallant eu siarad ac maent yn ymateb yn barod i gyfarwyddiadau ac awgrymiadau. Mae`r holl blant yn mwynhau storïau Cymraeg ac yn arbennig o hoff o ganeuon actol. Maent yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn arbrofi llawer gyda chreu marciau. Gall plant hŷn a mwy galluog ysgrifennu eu henwau mewn ffurf adnabyddadwy. Mae'r plant yn cyfrif i bump yn y Gymraeg ac yn defnyddio iaith fathemategol fel "mawr" a "bach". Maent yn adnabod siapiau megis trionglau, cylch a sgwâr ac yn matsio patrymau.

Mae gan bob plentyn fynediad i gyfrifiadur ac yn dechrau defnyddio llygoden y cyfrifiadur ac eiconau i liwio lluniau ar sgrîn.

Mae medrau creadigol y plant yn datblygu'n dda. Maen nhw`n mwynhau peintio a chymysgu paent i gynhyrchu arlliwiau a lliwiau gwahanol. Mae digon o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau corfforol ac mae bron pob plentyn yn defnyddio beiciau tair olwyn a sgwteri yn hyderus. Maent hefyd yn dangos cydsymud llaw-llygad da.

**Lles: Da**

Mae pob plentyn yn caffael sgiliau cymdeithasol da iawn. Maent yn serchog ac yn hapus i gwrdd â'u ffrindiau yn y lleoliad. Mae ganddynt agwedd gadarnhaol, maen nhw`n ystyriol ac yn gwrtais ac yn ymwneud yn dda â'i gilydd ac oedolion. Mae`r plant yn arddangos ymddygiad sy'n dangos eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd o unrhyw fath o gam-drin corfforol neu eiriol yn y lleoliad. Mae hon yn nodwedd dda iawn a nodedig o `r Cylch.

Mae`r plant yn datblygu dealltwriaeth dda o fwyta'n iach ac atgyfnerthir hyn gan y bwydydd sydd ganddynt fel byrbrydau. Mae amserau byrbryd yn achlysuron cymdeithasol da iawn lle mae plant yn dysgu sut i rannu, i helpu ei gilydd ac i fwynhau eu byrbrydau. Mae'r parch maen nhw`n dangos ei gilydd yn cydfynd â`r parch mae oedolion yn dangos ar gyfer pob plentyn.

Mae plant hefyd yn cymryd rhan weithredol drwy wneud penderfyniadau am eu dysgu.

Ar y cyfan, caiff lles plant flaenoriaeth yn y lleoliad ac mae hyn yn hynod lwyddiannus wrth ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol ac yn cynhyrchu plant sydd yn gytbwys ac yn addasu'n dda i fywyd yn y Cylch.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae`r cynllunio yn cael ei wneud ar y cyd gan gynnwys yr holl staff ac yn rhoi ystyriaeth i ddiddordebau`r plant. Mae hyn yn llwyddo i sicrhau bod y cynllunio yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn llwyddo i ymgysylltu pob plentyn. Mae llawer o weithgareddau yn hynod arloesol ac mae'r cynllunio yn cynnwys syniadau ac awgrymiadau newydd. Mae'r staff yn hynod arfarnol, ac mae'r cwricwlwm bob amser yn cael ei ddatblygu. Mae`r profiadau dysgu yn llwyddo i symud plant tuag at ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen.

Mae`r cynllunio yn cynnwys rhai gweithgareddau â ffocws ar gyfer plant o wahanol alluoedd. Fodd bynnag, nid yw'r tasgau bob amser yn cyfateb yn ddigonol â gallu a chyflawniad blaenorol y plant er mwyn rhoi iddynt waith gwahaniaethol a heriol.

Mae`r gweithgareddau a gynlluniwyd yn datblygu hyder plant i ddod yn ddysgwyr annibynnol ac mae'r cwricwlwm yn datblygu eu sgiliau corfforol a chreadigol yn llwydiannus a dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas.

Mae'r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn annog plant i ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac mae plant yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn eu dysgu yn gynyddol. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o draddodiadau a dathliadau o ddiwylliant Cymru yn dda. Caiff dyddiau penodol a dathliadau eu hymgorffori yn y cwricwlwm, fel Dydd Gŵyl Dewi. Mae plant yn gwisgo i fyny, gwneud lluniau a blasu bwydydd traddodiadol. Rhoddir pwyslais da iawn hefyd ar ddatblygu gwybodaeth plant o ddiwylliannau eraill. Yn ystod yr arolygiad roedd ymwelydd lleol yn datblygu gwybodaeth y plant o ddiwylliant India'r Gorllewin trwy storïau a gwisgo i fyny mewn dillad “Carnifal”.

Mae`r plant yn dysgu am ailgylchu drwy gasglu bwydydd gwastraff ar gyfer ailgylchu.

**Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr wybodaeth dda iawn a diweddaraf am ddatblygiad plant ac maent yn brofiadol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ofynion athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Nodwedd dda a nodedig yw disgwyliadau uchel yr ymarferydd o bob plentyn, beth bynnag eu cefndir a'u gallu.

Mae`r cynllunio yn cynnwys cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u harwain gan oedolion. Mae`r cynllunio yn rhoi ystyriaeth dda i anghenion plant unigol ac mae hyn yn cael ei hwyluso gan wybodaeth ymarferwyr o

bob plentyn unigol.  Caiff anghenion plant eu trafod yn hyblyg ac mae plant yn cael cefnogaeth yn ogystal â chael cyfleoedd digonol i weithio'n annibynnol.

Nodwedd ragorol o'r Cylch yw'r awyrgylch ardderchog ac ethos cefnogol a ddangosir gan y Cylch.  Mae plant yn elwa o'r awyrgylch tawel sy'n bodoli ac yn anaml iawn mae`r staff yn teimlo`r angen i ymyrryd.  Mae ymddygiad yn rhagorol a`r staff yn fodelau rôl da iawn, o ran eu defnydd o'r iaith Gymraeg ac wrth sefydlu sgiliau rhyngbersonol a pherthnasoedd.

Mae'r holl ymarferwyr yn cymryd rhan mewn cynllunio ac maent yn gwbl gyfarwydd o'r hyn y disgwylir iddynt ei wneud.  Mae`r staff yn mwynhau gweithio gyda phlant ac mae'r plant yn elwa'n sylweddol o fod yn y Cylch.

Mae pob plentyn yn cael eu hasesu'n rheolaidd ac mae`r arsylwadau yn cael eu cofnodi.  Mae gan weithwyr allweddol gyfrifoldeb sylfaenol dros grwpiau o blant ac ar gyfer cofnodi eu cyflawniad. Caiff cyrhaeddiad pob plentyn ei gofnodi mewn ffeil bersonol a`i grynhoi gan yr ymarferydd sy'n gyfrifol.  Mae adolygiad o'r cofnodion hyn yn dangos cynnydd plant.  Mae cyflawniadau plant yn ffurfio sail i`r cynllunio ar gyfer y dyfodol sy'n canolbwyntio i raddau helaeth ar anghenion a diddordebau plant.  Mae hyn yn arfer da ond mae angen ei ddatblygu ymhellach er mwyn adnabod sgiliau plant, yn enwedig mewn iaith a rhifedd ac i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. Byddai hyn yn galluogi gallai gweithgareddau gwahaniaethol gael eu cynllunio sy'n gweddu'n dda i anghenion dysgu unigol y plant ac i roi tasgau heriol iddynt.

Mae rhieni yn ymwybodol o gyflawniad eu plant ond maent yn llai clir o ran yr hyn y gallant ei wneud i`w helpu i wella.

## Gofal, cymorth ac arweiniad:  Rhagorol

Mae darpariaeth y Cylch ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles y plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn rhagorol.

Mae'r Cylch wedi sefydlu perthynas hynod effeithiol gyda'r holl bartneriaid sy'n ymwneud â gofal ac arweiniad plant.  O fewn y gymuned hon, a gydnabyddir fel ardal o amddifadedd cymdeithasol, mae `r Cylch wedi sefydlu ymddiriedaeth a darparu cefnogaeth benodol i blant a theuluoedd â'u hanghenion cymhleth a phenodol.  Trwy flynyddoedd o brofiad, mae'r arweinydd a nifer o staff, yn adnabod y teuluoedd a`u hamgylchiadau penodol yn dda.  O fewn y cyd-destun hwn y mae'r Cylch yn gweithredu.

Mae'r rheolwr ac arweinydd y Cylch wedi derbyn hyfforddiant proffesiynol i'w galluogi i asesu plant yr amheuir bod anghenion ychwanegol arnynt.  Mae'r hyfforddiant hwn - "Atodlen o Sgiliau Tyfu" (SOGS) a gynlluniwyd ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol, yn eu galluogi i asesu plant yn unol â'u Llinell Sentinal.  Mae hyn yn golygu bod plant yn cael eu hasesu a'u monitro o fewn y Cylch gan fynd i`r afael a`u hanghenion ychwanegol yn brydlon.  Mae hyn yn golygu gall anghenion corfforol, clyw, golwg, emosiynol neu unrhyw anghenion eraill gael eu hadrodd i'r awdurdod priodol a'u cefnogi.  Mae'r gwaith hwn yn cael ei gydnabod yn hynod fuddiol gan y sefydliadau arbenigol sy'n gweithio yn y gymuned gan gynnwys ymwelwyr iechyd a gweithwyr

proffesiynol meddygol fel y gall gwybodaeth gael ei chasglu'n ganolog. Yn y modd hwn ni all unrhyw blentyn gael ei "golli" yn y system. Mae hyn yn ymarfer rhagorol.

Mae`r plant sydd angen cymorth dysgu ychwanegol yn cael mynediad llawn i holl feysydd y cwricwlwm ac mae ganddynt eu cynlluniau addysgol unigol (CAU) sydd wedi'u teilwra i'w hanghenion penodol, boed yn anghenion addysgol, emosiynol neu ymddygiadol. Mae'r CAU yn fanwl ac yn cynnwys targedau ar gyfer y plentyn, adolygiadau tymhorol ac asesiad o gynnydd. Mae rhieni a gofalwyr yn cymryd rhan weithredol ac yn cael eu hannog i chwarae rhan lawn yn rhaglen datblygiad eu plentyn. Mae'r Cylch hefyd yn gweithio'n agos gyda'r asiantaethau allanol sy'n cefnogi'r plentyn. Lle bo angen, mae'r plentyn yn derbyn cefnogaeth 1:1 gan athro cynorthwyol.

Nodwedd dda iawn a nodedig o`r gefnogaeth mae plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn ei derbyn yw'r cysylltiad a sefydlwyd yn dda gyda'r ysgol gynradd, gan sicrhau parhad y gefnogaeth. Mae athrawon o'r ysgol sy'n derbyn y plant yn ymweld â'r Cylch yn rheolaidd er mwyn ymgyfarwyddo â'r plant hyn a'u hanghenion penodol. Mae cofnod cyflawniad y plentyn yn mynd gyda nhw i'w cyfnod nesaf o addysg.

Mae rheolwr y Cylch yn cefnogi rhieni unigol gyda'u problemau ac yn adnabyddus am ei chefnogaeth gymunedol. Mae'n mynychu Cynadleddau Achos ar gyfer plant ar y "gofrestr risg". Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd strategaeth a chyfarfodydd grŵp craidd ac mae'r rheolwraig yn ymweld â phlant yn eu cartref.

Mae`r plant sydd wedi eu hadnabod gan yr ymwelwyr iechyd cyffredinol sy`n gweithio yn yr ardal yn cael eu cyfeirio at y Cylch yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys plant o deuluoedd sydd wedi`u nodi bod angen seibiant arnynt ar gyfer materion emosiynol, cymdeithasol, iechyd neu faterion sy`n ymwneud â chyffuriau. Mae `r Cylch yn monitro plant o'r fath ac yn adroddiad i'r sefydliad proffesiynol perthnasol.

Mae'r Cylch hefyd yn gweithio gyda meddygon fel bod modd iddynt ddod i`r Cylch i roi triniaeth benodol i blant, er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn triniaeth briodol ac addas.

Mae gan y Cylch bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith o ran diogelu plant. Mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant diweddar a pherthnasol, a'r rheolwr yw`r person sy'n gyfrifol am ddelio ag amddiffyn plant. Mae`r gweithdrefnau yn dilyn ac yn adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid yw`n rhoi unrhyw achos i bryderu.

Ar y cyfan, mae gwaith y Cylch o ddydd-i-ddydd yn llawer uwch na'r disgwyliad o ran meithrin gwerthoedd fel parch at ei gilydd, gwirionedd, tegwch a gonestrwydd. Mae pob plentyn sy`n gweithio yn yr amgylchedd cefnogol a thawel yn dysgu i gymryd cyfrifoldeb ac i helpu ei gilydd. Nodwedd ragorol o `r Cylch yw'r berthynas rhyngbersonol amlwg lle nad oes unrhyw leisiau`n codi nac unrhyw anghytuno. Mae oedolion a phlant yn rhyngweithio yn dawel ac yn mwynhau cwmni ei gilydd. Mae`r ymddygiad yn eithriadol ac mae plant yn cyfrannu'n sylweddol at ethos cyffredinol eu hamgylchoedd. Mae hyn yn ddarpariaeth eithriadol ar gyfer y plant hyn sy`n cael eu cydnabod felly gan weithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r plant sy'n mynychu'r Cylch yn mwynhau bod mewn awyrgylch tawel a threfnus lle maent yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi'n dda gan staff profiadol. Mae ethos y Cylch yn gwbl gynhwysol, gan gynnig hawl cyfartal i'r cwricwlwm i`r holl blant.

Mae'r berthynas rhwng oedolion a phlant yn sefydlu ymdeimlad o oddefgarwch sydd wedi ymwreiddio yn y plant ac yn cael ei arddangos gan eu hagweddau. Maent i gyd yn rhydd oddi wrth aflonyddwch ac unrhyw ffurf o ymddygiad gormesol. Caiff y plant eu trin gydag anwyldeb ac ni chafwyd unrhyw gwynion oddi wrth unrhyw un.

Mae gan y Cylch ddigon o staff ac mae`r ymarferwyr yn gymwys a phrofiadol. Nodwedd dda iawn a rhagorol o`r Cylch yw ymrwymiad staff ac o ganlyniad mae lefel uchel o bresenoldeb. Prin iawn mae staff yn absennol am unrhyw rheswm.

Mae gan y Cylch adnoddau da i fynd i'r afael â gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae hefyd yn ymdrin yn dda ag anghenion penodol y plant ac yn cymryd ystyriaeth dda o`u buddiannau.

Caiff yr ystafelloedd eu defnyddio'n dda gan ddarparu ar gyfer anghenion a disgwyliadau'r plant. Defnyddir yr amgylchfyd lleol yn dda i wella'r cyfleusterau yn y lleoliad.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r Cylch yn elwa o arweinyddiaeth a rheolaeth hynod effeithiol ac arloesol, ac ymrwymiad y staff i gynnig y ddarpariaeth orau bosibl ar gyfer y plant. Mae'r arweinyddiaeth yn rhoi cyfeiriad clir ac ymdeimlad o bwrpas i `r Cylch. Mae'n canolbwyntio ar hyrwyddo a chynnal gwelliant. Mae'r arweinydd yn gosod esiampl ragorol, a thrwy ei gwybodaeth drylwyr o'r plant a'u cefndiroedd, mae`n rhoi cymorth o ansawdd uchel iddynt y tu hwnt i gyffuniau'r Cylch.

Mae'r rheolwr yn cael ei chefnogi'n dda iawn gan arweinydd y Cylch a`r staff sy`n rhannu gwerthoedd, nodau ac amcanion tebyg ac sy'n cyfrannu at gynllunio strategol. Ceir ethos cadarnhaol a disgwyliadau uchel o'r plant sy'n cael eu gwireddu yn ymarferol.

Mae'r staff a'r plant yn cael eu rheoli'n dda ac yn gyffredinol mae awyrgylch tawel, cytûn yn treiddio drwy'r lleoliad cyfan. Caiff cyrsiau sefydlu eu trefnu yn ôl yr angen ond mae hwn yn staff sefydlog sydd yn cefnogi ei gilydd yn dda iawn.

Caiff gwerthuso ei wneud yn flynyddol a'i ddefnyddio i dynnu sylw at faterion datblygu staff a hyfforddiant. Mae'r holl gyrsiau proffesiynol a fynychwyd gan unrhyw aelod o staff yn cael eu gwerthuso.

Mae cysylltiadau â rhieni yn effeithiol iawn gan eu bod yn sefydlu ymddiriedaeth ac yn galluogi staff i fod yn ymwybodol o anghenion unrhyw blentyn.

Mae'r pwyllgor rheoli yn deall eu rolau, ac wedi eu hysbysu'n dda am berfformiad y lleoliad. Mae`r penderfyniadau sydd wedi`u gwneud wedi bod yn effeithiol iawn wrth wella'r ddarpariaeth. Maent yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol.

Mae'r Cylch wedi cymryd blaenoriaethau cenedlaethol a lleol i ystyriaeth gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a Chynllun Iach a Chynaliadwy Cyn-Ysgol Caerdydd.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunanarfarnu wedi ei hen sefydlu ac wedi cael ei ddefnyddio i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r hunan-werthuso yn fanwl iawn ac yn cynnwys yr holl agweddau a amlinellir yn y Fframwaith ar gyfer Arolygu Lleoliadau Sector Nas Cynhelir. Mae gan y Cylch hanes da iawn o nodi meysydd ar gyfer datblygu a sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol. Mae hyn wedi arwain at y ddarpariaeth bresennol dda a da iawn ar gyfer y plant.

Mae'r Cylch wedi blaenoriaethu meysydd ar gyfer gwella ac wedi rhoi strategaethau ar waith ar gyfer gwella. Mae hyn wedi cynnwys yr holl ymarferwyr. Nid yw `r Cylch yn hunanfodlon mewn unrhyw ffordd ac yn chwilio am ffyrdd o wella bob amser. Mae defnydd da wedi ei wneud o grant cymorth ac mae`r Cylch yn gweithio'n dda gyda'r gymuned leol.

Mae'r holl ymarferwyr yn cymryd rhan lawn mewn datblygiad proffesiynol. Trwy gyfarfodydd trafod a gwerthuso rheolaidd caiff anghenion proffesiynol a phersonol y staff eu nodi ganedrych am gyfleoedd hyfforddi. Mae hyn wedi cynnwys cyrsiau i ddatblygu`r iaith Gymraeg i staff sydd angen gwella eu gallu ieithyddol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd plant ac mae wedi cynnwys datblygiad y fenter "Ysgol Goedwig." Mae ymarferwyr wedi ymweld â lleoliadau eraill ac mae'r Cylch yn cael ei gydnabod fel enghraifft o arfer dda.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y Cylch berthynas rhagorol gyda'r rhieni. Mae'r berthynas wedi'i seilio ar ymddiriedaeth ac mae rhieni a gofalwyr yn gwybod y byddant yn derbyn cefnogaeth gan y Cylch pan fo angen. Mewn trafodaeth, roedd rhieni yn gadarnhaol am y bartneriaeth a oedd yn bodoli. Mae rhieni yn cael eu cynnwys bob amser mewn penderfyniadau am eu plant.

Mae rhieni yn derbyn pecyn croeso cyn i'w plentyn ddechrau yn y Cylch a gwahoddiad i ymweld gyda'u plentyn. Mae cylchlythyr bob hanner tymor yn cadw rhieni yn hysbys o weithgareddau`r Cylch a'r hyn y gallant ei wneud i helpu eu plentyn. Mae rhieni hefyd yn cydnabod y polisi "Drws Agored" ac mae cyfleoedd ar gyfer trafodaethau preifat gyda'r staff os oes angen.

Mae cysylltiadau da yn bodoli â'r gymuned. Mae`r plant yn ymweld, er enghraifft, â`r llyfrgell, yr orsaf dân a siopau. Mae ymwelwyr o'r gymuned yn nodwedd reolaidd.

Nodwedd nodedig a da iawn sydd yn digwydd yn rheolaidd ac yn ystod yr arolygiad yw ymweliad adroddwr stori. Roedd y wraig yn adrodd straeon yn seiliedig ar draddodiadau India'r Gorllewin i grwpiau bach o blant. Cawsant eu gwisgo mewn dillad priodol a thlysau ar gyfer Carnifal India'r Gorllewin. Roedd hyn yn ffordd hynod effeithiol a chreadigol o gyflwyno arferion a thraddodiadau India'r Gorllewin, gyda`r plant yn ymateb yn gadarnhaol iawn i'r fenter hon.

Mae gan y lleoliad hefyd berthynas dda iawn gyda'r ysgolion cynradd sy'n derbyn y plant, yn enwedig "Ysgol Coed Y Gof". Mae staff o'r ysgol yn ymweld â'r Cylch yn rheolaidd i ddod i adnabod y plant ac i fod yn ymwybodol o'u cryfderau a'u gwendidau. Mae`r plant yn mynd â`u cofnodion cyflawniad gyda nhw, ynghyd â'r cofnodion Cylch. Mae hyn yn cynnwys achosion lle mae plant yn derbyn cymorth penodol a lle mae ganddynt anghenion dysgu ychwanegol. Mae`r plant hefyd yn ymweld â'r ysgol ar gyfer achlysuron penodol. Mae hyn yn hwyluso trosglwyddiad y plant. Mae'r partneriaethau hyn wedi'u sefydlu'n dda ac mae'r cyfathrebu clir rhwng y Cylch, y rhieni a'r ysgol yn gwneud cyfraniad da a chadarnhaol at ddysgu a lles plant.

Mae cynllunio'n broses o gydweithio sy'n cynnwys yr holl bartneriaid, gan gynnwys y plant, staff, rhieni a staff cefnogi`r Awdurdod Lleol. Mae'r Cylch yn gysylltiedig hefyd â Mudiad Meithrin ac yn defnyddio eu harbenigedd o ran polisïau`r Cylch ac arbenigedd staff.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r staff yn cael eu defnyddio'n briodol ac nid ydynt yn gadael unrhyw gyfleon i fynd heibio heb gefnogi plant yn ôl yr angen, boed y tu mewn i'r ystafell ddosbarth neu y tu allan yn yr ardal chwarae.

Defnyddir adnoddau yn dda i gymell y plant ac mae`r adnoddau a brynwyd yn y gorffennol yn cael eu defnyddio'n dda. Mae'r Cylch wedi cynllunio ar gyfer anghenion y dyfodol ac mae'r rhain wedi'u ffocysu'n dda ar wella darpariaeth ar gyfer y plant.

Defnyddir yr awyr agored yn dda i ddatblygu sgiliau plant ar draws pob maes dysgu.

Ar y cyfan, mae'r lleoliad yn defnyddio ei adnoddau yn dda ac yn darparu gwerth da iawn am arian.

## Atodiad 1

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Cafodd deg o holiaduron eu dychwelyd. Gofynnwyd i rieni i ymateb i 16 o ddatganiadau gan nodi un o bum categori - "cytuno'n gryf, yn cytuno, yn anghytuno, anghytuno'n gryf neu ddim yn gwybod".

Gellir crynhoi`r ymatebion fel a ganlyn:

Roedd pawb yn cytuno yn gryf gyda`r datganiadau:

*Rwy`n fodlon â`r lleoliad at ei gilydd.*
*Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn.*
*Cafodd fy mhlentyn help i ymgartrefu'n dda pan oedd yn dechrau yn y lleoliad.*
*Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da.*
*Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad.*
*Mae'r addysgu yn dda.*
*Mae'r ymarferwyr yn trin pob plentyn yn deg ac yn dangos parch tuag atynt.*
*Mae fy mhlentyn yn cael ei (h)annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.*
*Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad.*
*Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.*
*Rwy`n cael gwybodaeth dda am gynnydd fy mhlentyn.*
*Rwy'n teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at y lleoliad gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.*
*Rwy'n deall gweithdrefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion.*
*Mae`r lleoliad yn cael ei redeg yn dda.*

Cytunodd pob un, gydag 80% yn cytuno'n gryf gyda`r datganiadau:

*Mae fy mhlentyn yn cael ei baratoi/ei pharatoi`n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol.*
*Mae ystod dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.*

Ni chafwyd unrhyw ymatebion a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf gydag unrhyw un o'r datganiadau uchod.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae agweddau`r plant yn dangos eu bod yn mwynhau dod i'r Cylch. Maent yn dod i mewn yn hyderus ac yn cyfarch ei gilydd gydag anwyldeb. Mewn sgwrs dywedant eu bod yn mwynhau cwrdd â'u ffrindiau, roedd hyn yn cynnwys y staff. Maent yn dweud eu bod yn derbyn gofal da ac yn mwynhau amser stori. Roedd llawer yn amharod i adael ar ddiwedd y sesiwn.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |